# PWYLLGOR CRAFFU STRYDLUN A PHEIRIANNEG

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Gwener, 18 Mawrth 2022** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.M.Penry** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd R.W.Wood** |
| **Cynghorwyr**: | W.F.Griffiths, R.Davies, J.Hale, S.Jones, S.Lynch a/ac M.Protheroe |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, M.Roberts, H.Hasan, K.Lewis, P. Jackson, J.Smith, T.Davies a/ac C.Davies |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.Wingrave a/ac L.Jones |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Hysbyswyd y Pwyllgor o gamgymeriad yn yr adroddiad canlynol ar Agenda Bwrdd y Cabinet:

- Eitem 13 ar yr Agenda - Rhaglen Caffael Cerbydlu Cerbydau a Pheiriannau Trwm 2022/23

Nodwyd y dylai pwynt 2 o 'ddiben yr adroddiad' ddarllen *'cymeradwyo rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth Gwasanaeth newid cerbydau yn y dyfodol, o 2023/2024 os bydd unrhyw grantiau ar gael i helpu i brynu cerbydau'*

Yn dilyn y diweddariad, nododd yr aelodau'r camgymeriad.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2021 a 28 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

## 3. GRŴP TASG A GORFFEN ADOLYGU POLISI BIN GRAEAN

Rhoddwyd canfyddiadau diweddaraf y Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Polisi Bin Graean i'r pwyllgor; roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r gwaith a gwblhawyd gan y grŵp, gan gynnwys cefndir pam y sefydlwyd y grŵp, manylion pob cyfarfod a gynhaliwyd, a'r ymarfer arolwg y gwahoddwyd pob Aelod Etholedig i gymryd rhan ynddo.

Esboniwyd bod yr ymarfer arolwg yn rhoi cyfle i aelodau gyflwyno ceisiadau am finiau graean ychwanegol yn eu ward ac i'r biniau graean presennol gael eu symud neu eu gwaredu; trafodwyd canfyddiadau'r ymarfer hwn yng nghyfarfod diwethaf y grŵp, ac i gloi'r cyfarfod, rhoddodd y swyddogion dri opsiwn i'r aelodau.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen fod pleidlais wedi'i chynnal yn ystod cyfarfod diwethaf y grŵp i benderfynu ar yr opsiwn a ffefrir i'w argymell i Fwrdd Strydlun a Pheirianneg y Cabinet; roedd y mwyafrif o blaid opsiwn 3 sef argymell y byddai'r rhestr gyfredol o anghenion blaenoriaethol a nodwyd, fel y nodwyd gan aelodau yn Atodiad 2 yr adroddiad, yn cael ei bodloni a’r cap yn cael ei gynyddu'n gyfatebol, ond yna byddai lefel y biniau graean yn cael ei chapio eto.

Yn dilyn gwaith craffu, roedd y pwyllgor yn cefnogi cyflwyno opsiwn 3 i Fwrdd y Cabinet i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

## 4. <u>CYNNAL LLWYBRAU DIOGEL I YSGOLION</u>

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau am gynnal a chadw llwybrau diogel i ysgolion, gan gynnwys pontydd troed ac isffyrdd.

Roedd yr adroddiad a ddosbarthwyd yn tynnu sylw at y ffaith bod pontydd ac isffyrdd, a oedd yn rhan o'r llwybrau diogel i ysgolion, yn cael eu harolygu bob dwy flynedd am ddiffygion adeileddol. Gofynnodd yr aelodau a oedd cyfle i wneud yr arolygiadau'n fwy aml oherwydd pwysigrwydd cadw'r llwybrau'n ddiogel i'w defnyddio. Nodwyd bod y drefn arolygu ffurfiol, o ran yr asedau adeileddol, yn cydymffurfio â'r gofynion statudol; mae'r gofynion yn cynnwys arolygiad cyffredinol dwy flynedd, ac arolygiad egwyddor dros gyfnod hwy. Soniodd swyddogion y gall y Goruchwylwyr Parth hefyd nodi unrhyw beryglon o ddydd i ddydd. Ychwanegwyd bod gan y Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd Swyddog Teithio gan Ddysgwyr sy'n cynnal arolygiad llwybr yn flynyddol, yn benodol ar y llwybrau diogel i ysgolion, i nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder; byddai'r swyddog yn adrodd am unrhyw bryderon yn uniongyrchol i'r system. Dywedwyd y gallai defnyddwyr, rhieni neu Aelodau Etholedig roi gwybod i'r tîm am

unrhyw bryderon neu beryglon, a byddent yn ymateb iddynt yn briodol.

Gofynnwyd pam nad oedd de Bryncoch wedi'i gynnwys ar Fap Trosolwg Llwybrau Diogel i'r Ysgol CNPT, a nodir yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd. Esboniodd swyddogion fod y llwybr yr oedd yr aelodau'n cyfeirio ato yn llwybr newydd a oedd yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd; unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, caiff ei arolygu un tro olaf gan y Swyddog Teithio gan Ddysgwyr, ac yna ei ychwanegu at y rhestr o lwybrau diogel i ysgolion. Soniwyd y bydd y llwybr wedi'i ddiweddaru hefyd yn cael ei rannu â'r coleg a'r ysgolion lleol er mwyn iddynt ddiweddaru eu cynlluniau.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 5. <u>**CRAFFU CYN PENDERFYNU**</u>

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

<u>Monitro Perfformiad Chwarter 3 2021/22</u>

Rhoddodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddata rheoli perfformiad chwarter 3 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Rhagfyr 2021.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

<u>Rhaglen Gyfalaf Traffig a Chynlluniau Teithio Llesol 2022-2023</u>

Darparwyd adroddiad i'r aelodau ynghylch yr hysbyseb arfaethedig o'r gorchmynion rheoleiddio traffig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Gyfalaf Traffig y cyngor a'r Rhaglen Teithio Llesol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd trafodaeth mewn perthynas â'r crynodeb o'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Traffig 2022-2023; yn arbennig yr A4063 Heol Maesteg, Croeserw – gostyngiad yn y terfyn cyflymder o 60 mya i 40/30 mya (Ward Cymer).

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r argymhelliad fynd at Fwrdd y Cabinet.

<u>Gorchymyn/gorchmynion Rheoleiddio Traffig - Goytre, Port Talbot</u>

Rhoddwyd adroddiad i'r pwyllgor i ystyried y sylwadau a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn dilyn hysbysebu Gorchymyn (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho ar Unrhyw Adeg) 2022 ar

(Heol Goytre, Cilgant Goytre, Stryd Emroch, lôn y tu ôl i Stryd Emroch a Stryd y Dwyrain, Goytre).

Esboniodd y Pennaeth Peirianneg a Thrafnidiaeth fod y Tîm Diogelwch Cymunedol wedi tynnu sylw at y cynllun i ddechrau, yn dilyn cyfarfod gyda thrigolion lle codwyd pryderon mewn cysylltiad â'r llwybr hwn. Ar ôl derbyn yr adborth gan y Tîm Diogelwch Cymunedol, nodwyd bod y Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd wedi cynnal arolygiadau o'r llwybr hwn; roedd y llwybr yn rhan o'r llwybrau diogel i ysgolion, felly roedd yn bwysig cynnal yr asesiad ac ymateb i aelodau lleol y gymuned.

Yn dilyn datblygiad y cynllun, tynnwyd sylw at y ffaith bod y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig wedi'i gyflwyno i Fwrdd Strydlun a Pheirianneg y Cabinet er mwyn gofyn am ganiatâd i'w hysbysebu; rhoddwyd caniatâd, a dilynwyd y broses ffurfiol fel arfer.

Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad tair wythnos, derbyniodd swyddogion wrthwynebiadau i'r cynllun a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau, dywedwyd bod y Tîm Technegol a'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd wedi adolygu'r llwybr ymhellach, a daethpwyd i'r casgliad y gellid diwygio'r cynllun drwy gwtogi'r Gorchymyn tua 15 metr; penderfynodd swyddogion mai dyma oedd y cynnig lleiaf a fyddai'n ddiogel i'r gymuned ei ddefnyddio, wrth symud ymlaen.

Tynnwyd sylw at y ffaith yr ymgynghorwyd ag Aelodau Lleol ar y cynllun hwn, a'u bod yn cefnogi'r gwrthwynebiadau'n rhannol; fodd bynnag, hoffent i'r gorchmynion rheoleiddio traffig gael eu lleihau ymhellach ar gornel Rhif 1 Stryd y Dwyrain a Heol Goytre. Dywedodd swyddogion fod y Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd wedi adolygu hyn ymhellach, a daethpwyd i'r casgliad na fyddai lleihau'r gorchymyn rheoleiddio traffig ar y gyffordd yn amddiffyn y gornel nac yn ei gwneud yn ddiogel i'r gymuned. Felly, roedd swyddogion yn argymell y dylid gweithredu'r cynllun diwygiedig, fel y nodir yn Atodiad B, ar y safle er budd diogelwch ar y ffyrdd.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r argymhelliad fynd at Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**